30.06.2022

Heledd Williams
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
03305 880364

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Un o draddodiadau hynafol Aberteifi yn ôl wedi saib o ddwy flynedd

Mae dydd Sadwrn olaf mis Ebrill yn ddiwrnod pwysig yng nghalendr tref Aberteifi ers blynyddoedd lawer. Dyma ddiwrnod y Sadwrn Barlys – hen draddodiad lle mae sŵn clepian pedolau ceffylau gorau'r ardal a hen beiriannau amaethyddol yn atseinio drwy'r strydoedd mewn gorymdaith. Eleni cynhaliwyd y Dydd Sadwrn Barlys cyntaf ers tair blynedd oherwydd y pandemig.

Mewn rhifyn arbennig o **Cefn Gwlad** ar 11 Gorffennaf, bydd Ifan Jones Evans yn ymweld â'r digwyddiad unigryw hwn, yn dilyn paratoadau'r ffyddloniaid - y trefnwyr, teuluoedd y cobiau a'r ceffylau gwedd, heb anghofio criw'r hen beiriannau - a mwynhau holl rialtwch y diwrnod mawr wrth i dref Aberteifi adfer hen draddodiad unigryw a dathlu diwedd y cyfnod clo. Ymysg eraill, cawn gwrdd â JJ Williams, un o aelodau'r pwyllgor, sydd hefyd yn rhedeg busnes teuluol ar gyrion Aberteifi, a Tudor Harries, sydd wedi bod yn Ysgrifennydd ers 12 mlynedd.

Meddai Tudor: "Mae'n deg i weud mai Sadwrn Barlys yw'r diwrnod pwysica' yng nghalendr tre' Aberteifi. Mae e'n siawns i bontio'r gap sydd rhwng cefen gwlad a'r bywyd trefol. Yn yr oes hon, sioe feirch yw hi, ac mae cystadlaethau wedyn; gwahanol ddosbarthiadau. Mae'r pencampwyr yn cael ei dewis yn y diwedd, ac wrth gwrs uchafbwynt y diwrnod, a beth sy'n gwneud e'n unigryw yw arddangos a rhedeg y meirch rownd y dre'. Mae fel bod môr coch yn agor. Na'i gyd y'ch chi'n gweld yw'r wynebau 'ma ddwy ochr i'r hewl, a 'chi'n clywed y pedolau'n clatsian ar y tarmac. 'Sdim ots os y'ch chi gynta' neu ddiwethaf yn y'ch dosbarth, hwnna yw'r wefr, a hwnna dylai bridwyr bod yn cofio".

Mae sioe yn cael ei chynnal ar gaeau'r ysgol uwchradd cyn i'r yr orymdaith enwog fynd drwy'r dref. Wedi i'r stalwyni gael eu tro, bydd arddangosfa o gertiau a cheffylau, ac yna bydd yr hen beiriannau a thractorau.

Mae'n debyg i'r traddodiad hwn gychwyn yn 1871, ac yn yr oes a fu, roedd yn ddathliad yn y gymuned amaethyddol i nodi diwedd y tymor hau cnydau.

"Ar y dechrau" meddai Tudor, "dathliad o'dd Sadwrn Barlys o benni tymor hau'r gwanwyn. We'dd 'na ddau bwrpas i'r diwrnod - o'dd e hefyd yn ffair huro; byddai gweision fferm yn cael eu cyflogi am dymor o chwe mis, felly wedi i'r tymor o hau ddod i ben, bydden nhw'n casglu yn Aberteifi i chwilio am waith am y chwech mis nesa; sef

tymor y cynaeafu. O'dd bridwyr meirch wedyn yn manteisio ar hynny ac roedden nhw'n dod ac arddangos meirch eu perchnogion.

"Mae Covid wedi gadael rhyw wagle ym mywyd dyn, a hir oes i'r Sadwrn Barlys."

Felly dathlwch a phrofwch yn un o draddodiadau mwyaf hynod Cymru yn **Cefn Gwlad: Sadwrn Barlys**.

**Cefn Gwlad: Sadwrn Barlys**
**Nos Lun 11 Gorffennaf, 9.00, S4C**
**Isdeitlau Cymraeg a Saesneg**
**Ar alw: S4C Clic; BBC iPlayer a llwyfannau eraill**
**Cynhyrchiad Grand Slam Media/ITV Cymru ar gyfer S4C**

30.06.2021

Heledd Williams
Cyswllt Contact
03305 880364

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# One of Cardigan's ancient traditions returns at full gallop

The last Saturday of April has been a highlight in Cardigan town's calendar since the 19th century. It notes Barley Saturday; a parade of the area's finest horses marched through the town's packed streets, followed by a procession of vintage farm machinery and vehicles. This year saw the event make an eagerly-anticipated comeback following a three-year hiatus caused by the Covid pandemic.

In a special edition of **Cefn Gwlad** on 11 July, Ifan Jones Evans visits this unique event, and follows the preparations of the faithful - the organisers, cob and shire horse families and also the vintage lovers – and enjoy the fun and frivolity of the big day as the town of Cardigan revived a unique old tradition and celebrated the end of lockdown. Among others, we meet JJ Williams, a member of the committee, who also runs a family business on the outskirts of Cardigan, and Tudor Harries, who has been Secretary for 12 years.

Tudor says: "It's fair to say that Barley Saturday is the most important day in the Cardigan town calendar. It is a chance to bridge the gap between countryside and town. Nowadays, it's a horse show; there are competitions with different classes. The champions are chosen at the end, and of course the highlight of the day, and what makes it unique is seeing the horses run through the town. It's like the parting of the red sea...all those faces either side of the road, and you hear the horseshoes clattering on the tarmac. It doesn't matter if you're first or last in your class, that's the buzz, and that's what breeders should be remember."

A show is held on the fields of the high school before the famous parade passes through the town. A display of carts and horses follow the last of the stallions, and then it's the turn of the old machinery and tractors.

This tradition probably began in 1871, and in ancient times, was a celebration in the agricultural community to mark the end of the crop sowing season.

"At the beginning," says Tudor, "the event was a celebration of the end of sowing season. The purpose of the day was twofold - it was also a hiring fair; farm labourers would be employed for a six-month term, so after the sowing season ended, they would gather in Cardigan to look for work for the next six months; which is harvest season. Horse breeders then took advantage of it and displayed their owners' horses.

"Covid left a void, and so long live Barley Saturday."

So celebrate and experience one of Wales's most remarkable traditions in Cefn Gwlad: Sadwrn Barlys.

**Cefn Gwlad: Sadwrn Barlys**
**Monday 11 July 9.00, S4C**
**English and Welsh subtitles available**
**On demand: S4C Clic, iPlayer and other platforms**
**A Grand Slam Media/ITV Cymru production for S4C**